

Strategaeth

**Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a
Thrais Rhywiol**

Gogledd Cymru 2018-2023

**Diweddariad ar y Cynnydd – Mehefin
2019**

Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol Strategaeth Ranbarthol 2018-23	3
2.	Cyflwyniad.....	4
3.	Llywodraethu.....	5
4.	Meysydd cynnydd penodol:	
	4.1 Sefydlu Is-grwpiau.....	6
	4.2 Darpariaeth IDVA ranbarthol.....	7
	4.3 Gweithio mewn Partneriaeth	8
	4.4 Gweithio â chyflawnwyr.....	9
	4.5 Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol	10

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru:

Bod pobl Gogledd Cymru yn gallu byw bywydau diogel, cyfartal, heb drais, mewn cymunedau heb drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Gogledd Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â bob agwedd ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ar sail 6 o amcanion allweddol, sy'n cael eu hategu gan yr amcanion cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015:

Atal

Amcan 1: Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.

Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.

Diogelu

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.

Amcan 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.

Darparu cefnogaeth

Amcan 5: Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr.

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Cymru.

Bydd y strategaeth yn dangos bod Gogledd Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar y cyd, ac fel un i fynd i'r afael â'r materion hyn, drwy gyd-gynhyrchu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth ar bob lefel. Dan arweiniad clir ac ymroddedig gan Fwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru, byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i'r ymarfer gorau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n unol ag anghenion ein cymunedau lleol.

Bydd y strategaeth hon yn ein galluogi a'n cefnogi i roi ar waith syniadau ac arferion arloesol, yn ogystal ag yn cefnogi'r gwasanaethau sy'n bodoli ers tro, er mwyn darparu i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd becyn cymorth cyflawn. Bydd yn canolbwyntio ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd, a hefyd ar helpu teuluoedd i ddatblygu eu perthnasoedd a hyrwyddo ethos o berthnasoedd diogel, iach i bawb.

2. Cyflwyniad

Cyfarfu Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched, Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2016 a chwblhawyd yr Asesiad o Anghenion y Rhanbarth ym mis Rhagfyr 2017, gan arwain at sefydlu'r Strategaeth Ranbarthol ar ddechrau 2018.

Mae'r strategaeth ranbarthol yn dangos yn glir fod Gogledd Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar y cyd, ac fel un i fynd i'r afael â VAWDASV, drwy gyd-gynhyrchu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth ar bob lefel. Dan arweiniad clir ac ymroddedig gan Fwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru, byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i'r ymarfer gorau (yn ôl Bywydau Diogelach, Cymorth i Ferched Cymru a deddfwriaeth a chanllawiau eraill gan Lywodraeth Cymru) a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n unol ag anghenion ein cymunedau lleol. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o'r asesiad o anghenion, yn cael cyfarfodydd a diweddariadau rheolaidd â darparwyr y 3^{ydd} Sector i sicrhau y cynhelir ansawdd y ddarpariaeth, yn ogystal ag yn cael gwybodaeth gan grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni eu hanghenion yn llawn.

Cwblhawyd yr Asesiad o Anghenion ym mis Rhagfyr 2017 ac arweiniodd at lunio'r Strategaeth Ranbarthol ar ddechrau 2018. Rydym yn sylweddoli bod angen i'r Asesiad o Anghenion fod yn ddarn o waith parhaus, dynamig ac mae hwn yn ddarn o waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Tîm Rhanbarthol.

Mae'r strategaeth eisoes wedi ein galluogi ni i gefnogi arferion a syniadau arloesol, (megis yr ymyrraeth Tadau Gofalgar i gefnogi cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig i ddod yn well rhieni) a hefyd i gefnogi gwasanaethau sy'n gweithredu ers tro, er mwyn darparu pecyn cymorth cyflawn i ddiodefwr, goroeswyr a'u teuluoedd. Bydd yn canolbwyntio ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd, a hefyd ar helpu teuluoedd i ddatblygu eu perthnasoedd a hyrwyddo ethos o berthnasoedd diogel, iach i bawb. Byddwn yn uwchraddio ein hymyrraeth ar gyfer cyflawnwyr (Choose2change) lle bo'n bosibl, gan ganolbwyntio ar newid gwerthoedd ac agweddau at drais mewn perthnasoedd, ond gan weithio hefyd â'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol i helpu'r gwaith o euogfarnu ac adsefydlu cyflawnwyr drwy gynnig hyfforddiant i staff llysoedd. Rydyn ni'n dal i gynnal gwasanaethau pen uchaf y farchnad megis IDVA/ISVA, ond rydyn ni hefyd yn edrych ar ragor o brosiectau atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'r Cynghorydd Rhanbarthol yn gweithio â'r Adran Addysg mewn rhai ALLau i ystyried sut gellir sefydlu'r Dull Addysg Gyfan i helpu i newid y diwylliant mewn ysgolion, i'w gwneud yn fwy ystyriol o drawma.

3. Llywodraethu

Nod Bwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru yw cydweithio mewn partneriaeth i sicrhau ein bod yn darparu'r ymateb mwyaf effeithlon ac effeithiol i atal y niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhanbarth Gogledd Cymru a gweithredu a chefnogi gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015. Sefydlwyd y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2016 a'i nod yw llunio, cymeradwyo a monitro'r strategaeth ranbarthol ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a sicrhau bod materion sy'n ymwneud â VAWDASV o ran goroeswyr, cyflawnwyr, teuluoedd a chymunedau'n cael sylw yn effeithiol ac yn strategol yng Ngogledd Cymru.

Dyma aelodaeth y Bwrdd fel y mae ym mis Mehefin 2019

- Cyngorydd Cenedlaethol (os yw ar gael)
- Heddlu Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Awdurdodau Lleol – Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- CRC
- Carchar EM y Berwyn
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- 1 aelod o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gynrychioli'r 4 Partneriaeth
- 3 chynrychiolydd o wasanaethau arbenigol i gynrychioli holl grwpiau'r 3^{ydd} sector
- 1 cynrychiolydd o Cefnogi Pobl
- 1 cynrychiolydd o'r Bwrdd Cynllunio Ardal
- Cadeiryddion Grwpiau Cyflawni/Is-grwpiau - *Penderfynir ar Gadeirydd y Grŵp Cydgomisiynu a'r Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol yn ystod Chwarter 1.*

Cadeirydd presennol y Bwrdd Strategol yw Stephen Hughes (OPCC) a'r Is-gadeirydd yw Chris Weaver (BIPBC). Delir y swyddi hyn am ddwy flynedd.

4. Meysydd cynnydd penodol

4.1 Sefydlu Is-grwpiau

Ar ôl sefydlu'r Bwrdd Strategol ar ddiwedd 2016, crëwyd tri phrif Is-grŵp hefyd i fwydo i mewn i'r Bwrdd a darparu cefnogaeth weithredol. Lluniwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grwpiau ac er mai'r Cynghorydd Rhanbarthol sy'n cadeirio'r grwpiau ar hyn o bryd, caiff y cadeiryddion newydd eu hethol yn ystod haf 2019. Bydd y tîm rhanbarthol yn dal i wasanaethu'r grwpiau hyn ac yn darparu'r holl gefnogaeth sy'n ofynnol.

Sefydlwyd yr Is-grŵp Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod/Priodasau dan Orfod/Trais ar sail Anrhydedd ym mis Mehefin 2017 a bu'r grŵp yn gweithio yn ystod 2018/19 i sefydlu llwybrau cymorth mwy cydlynol ar gyfer dioddefwyr FGM, HBV, FM a'u teuluoedd ar draws y rhanbarth. Caiff y grŵp hwn ei adfywio yn ystod 2019/20 a chaiff y cylch gorchwyl ei seilio ar sut i ddefnyddio cyllid a rennir ymlaen i 2020. Mae'r grŵp yn cynnwys aelodau o Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol), BIPBC a'r 3^{ydd} Sector arbenigol (BAWSO). Bydd y grŵp hefyd yn ystyried achosion penodol, lle bo'n briodol, yn enwedig os ydynt wedi achosi problemau â gweithio mewn partneriaeth neu ddiffyg cyllid/cefnogaeth. Os gwelir tueddiadau penodol, caiff y rhain eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd Strategol i gael eu hystyried.

Cyfarfu'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol am y tro cyntaf ar 22^{ain} Chwefror 2018; mae'r holl awdurdodau perthnasol yn aelodau ohono, yn ogystal â Heddlu Gogledd Cymru ac mae'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gefnogaeth hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr a phartneriaid ar draws Gogledd Cymru. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am yr holl hyfforddiant ar VAWDASV ar draws Gogledd Cymru, yn ogystal ag am y Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol. Mae'r grŵp yn gweithio â'r Swyddog Hyfforddi a Datblygu Rhanbarthol ar hyn o bryd, i sefydlu cynllun prosiect ar gyfer cyflwyno Grŵp 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar draws y rhanbarth. Bydd y criw cyntaf i wneud cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr Grŵp 2 yn dechrau ym mis Gorffennaf 2019, a bydd yr ail griw yn dechrau ym mis Medi 2019.

Cyfarfu'r Is-grŵp Cydgomisiynu am y tro cyntaf ar 6^{ed} Mawrth 2018. Mae amrywiol gomisiynwyr o'r awdurdodau perthnasol yn aelodau o'r Grŵp Cydgomisiynu, yn ogystal â phartneriaid 3^{ydd} Sector ac mae hyn wedi arwain at sefydlu proses gydgomisiynu drylwyr a chadarn. Mae'r grŵp wedi llunio manyleb IDVA isranbarthol, sy'n mynd drwy'r broses gaffael ar hyn o bryd. Maent hefyd yn gweithio ar adfywio'r Aseiad o Anghenion/Dadansoddiad o Fylchau, i'w droi yn brosiect dynamig sy'n dal i adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol yng Ngogledd Cymru.

4.2 Darpariaeth IDVA Ranbarthol

Un o'r prif feysydd datblygu i'r Bwrdd Strategol fu sefydlu darpariaeth Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) rhanbarthol fwy cyson.

Yn y gorffennol, y (3^{ydd}) sector arbenigol oedd yn gofalu am y ddarpariaeth IDVA yng Ngogledd Cymru a braidd yn dameidiog fu'r nawdd, gydag ambell ddarpariaeth yn cael nawdd drwy dair ffynhonnell wahanol. Mae hyn wedi arwain at anghysonderau yn y ddarpariaeth, gan fod pob darparwr yn ceisio bodloni anghenion lleol dioddefwyr uchel eu risg, ac yn ceisio sicrhau ar yr un pryd eu bod yn cyflawni'r canlyniadau y mae'r amrywiol gomisiynwyr yn gofyn amdanynt. Gall y canlyniadau hyn amrywio'n aruthrol yn ddibynnol ar y ffynhonnell nawdd a gall arwain at wanhau'r gwasanaeth.

Rhoddodd y Bwrdd Strategol i'r Grŵp Cydgomisiynu y dasg o ystyried y ddarpariaeth bresennol ac argymhellion Bywydau Diogelach, yn ogystal â'r anghenion lleol a llunio manyleb ar gyfer darpariaeth ranbarthol, sy'n bodloni anghenion y poblogaethau lleol yn uniongyrchol, ac yn sicrhau ar yr un pryd fod y ddarpariaeth yn cyflawni'r arfer gorau. Er mwyn cynnal yr arbenigedd a'r wybodaeth leol, cytunwyd y dylid rhannu'r rhanbarth yn isranbarthau (Wrecsam a Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn) gan ofyn i un o'r darparwyr arweiniol dendro am un rhanbarth, dau ranbarth neu'r tri. Disgwylir i'r darparwyr arbenigol weithio'n gydweithredol, i sicrhau bod yr anghenion lleol yn cael eu bodloni. Bwriadwyd y model hwn i leihau'r gorbenion a sicrhau cysondeb, gan gynnal yr arbenigedd lleol ar yr un pryd.

Mae'r Fanyleb wedi cael ei llunio ac mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (sy'n gweithredu ar ran y Bwrdd Strategol) wrthi'n cynnal y broses gaffael. Lluniwyd hefyd Swydd-ddisgrifiad IDVA, unwaith eto er mwyn hyrwyddo cysondeb a sicrhau y glynir wrth argymhellion Bywydau Diogelach. Dylai IDVAs fod yn rhoi cefnogaeth i ddioddefwyr uchel eu risg gan eu helpu drwy'r system cyfiawnder troseddol, os yw hynny'n ofynnol. Rydym eisiau sicrhau mai dyma yw eu rôl ar draws y rhanbarth ac nad yw lefel y ddarpariaeth sydd ar gael yn loteri cod post.

Daw'r datblygiad hwn ar adeg o newid yn yr ymateb cymunedol cydgysylltiedig cyflawn i VAWDASV ac ar adeg pan gynhelir adolygiad o'r broses MARAC (Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth) ar draws y rhanbarth. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio â'r Bwrdd Strategol a'r 3^{ydd} sector er mwyn sicrhau bod cynadleddau MARAC yn gyson ar draws y rhanbarth ac er mwyn delio â'r lefelau uchel o achosion sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld y caiff y ddarpariaeth IDVA ei hail-lunio i gyd-fynd â'r broses o ailstrwythuro'r broses MARAC gyfan.

4.3 Gweithio mewn partneriaeth

Deilliodd Bwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru allan o'r Fforwm Trais ar sail Rhywedd, a oedd yn fforwm a oedd yn cyfarfod bob chwarter i arweinyddion Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, darparwyr 3^{ydd} sector, a Heddlu Gogledd Cymru, iechyd, prawf a nifer o bartneriaid eraill.

Mae'r Bwrdd Strategol wedi sefydlu Cylch Gorchwyl ac mae'n rheoli grant VAWDASV Llywodraeth Cymru yn ganolog (arferai hwn fynd i Awdurdodau Lleol unigol ac nid oedd cysondeb yn yr hyn a gomisiynwyd).

Drwy ymgysylltu â'i bartneriaid ac â chomisiynwyr eraill, mae'r Bwrdd hefyd yn comisiynu rhan o gyllid yr OPCC, o safbwynt VAWDASV, yn ogystal â rhyw gymaint o gyllid y Bwrdd Cynllunio Ardal a Cefnogi Pobl. Bu hyn yn dipyn o gamp ac mae'n deillio o'r broses gadarn o feithrin perthnasoedd a phartneriaethau a welir ar draws y rhanbarth.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Strategol a'r Cynghorydd Rhanbarthol hefyd wedi bod yn gweithio â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i sicrhau bod y Strategaeth VAWDASV ranbarthol yn arwain penderfyniadau VAWDASV ar draws y rhanbarth, ni waeth lle mae'r cyllid unigol yn deillio ohono.

Mae'r Cynghorydd Rhanbarthol yn mynychu Fforwm Gwasanaethau Arbenigol y Trydydd Sector, sy'n cyfarfod wythnos o flaen y Bwrdd Strategol, i sicrhau cyfathrebu da a chllir rhwng darparwyr arbenigol y 3^{ydd} sector a'r Bwrdd. Caiff y grŵp hwn ei gadeirio gan Eleri Butler (Prif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru) a'i gefnogi gan WWA. Drwy'r cyfarfod hwn mae'r holl wasanaethau arbenigol yn cael gwybod am waith y Bwrdd, ac mae hefyd yn creu sianel gyfathrebu ddwyffordd real gan eu bod yn gallu sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ar unwaith. Mae'r cynrychiolwyr 3^{ydd} Sector ar y Bwrdd yn gallu cyflwyno unrhyw broblemau/pryderon i'r Bwrdd yn amserol.

Mae aelod o'r Tîm Rhanbarthol hefyd yn mynychu Grwpiau Llywio Lleol MARAC a'r fforymau VAWDASV, i sicrhau bod materion lleol yn cael eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd Rhanbarthol.

Mae Llais y Goroeswr yn bwysig dros ben i'r Bwrdd strategol a rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys goroeswyr ar bob lefel. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar hyn o bryd i ddefnyddio'r Fforymau Goroeswyr presennol sy'n gysylltiedig â grwpiau 3^{ydd} sector i ddarparu cefnogaeth/ymgyngoriad a gwybodaeth i'r Bwrdd. Bydd y Tîm Rhanbarthol yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar sefydlu'r Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr a bydd wedyn yn gweithio â'r 3^{ydd} Sector yng Ngogledd Cymru i sicrhau bod llais pawb y mae VAWDASV yn effeithio arno yn cael gwrandawriad. Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn ceisio nawdd i helpu i sefydlu grŵp tebyg i SEEDS (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr) yn Ne Cymru.

4.4 Gweithio â chyflawnwyr

Un o flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2019/20 fu ailddatblygu'r gwaith presennol â chyflawnwyr ar draws Gogledd Cymru. Buom yn gweithio'n agos â Dr Cerys Miles a Linsey Waters (Llywodraeth Cymru) i edrych ar yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd ac ar sut gallwn ddatblygu'r maes hwn i fodloni anghenion dioddefwyr a'u teulu yn well, gan sicrhau ar yr un pryd fod cyflawnwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd.

Dangosodd Asesiad o Anghenion Gogledd Cymru'r anghydbwysedd yn y cyllid ar gyfer gwaith â chyflawnwyr o'i gymharu â dioddefwyr ar draws y rhanbarth ac rydym yn cydnabod, heb ymyrraeth gynnar â dioddefwyr a chyflawnwyr, nid ydym yn mynd i allu torri'r cylch camdriniaeth.

Mae'n amlwg bod yr Asesiad o Anghenion yn canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar ddiodefwyr a bod angen inni edrych ar ddadansoddiad o fylchau sydd wedi'i dargedu lawer mwy, gan edrych ar siwrnai'r cyflawnwyr o'r ddarpariaeth gymunedol drwodd at giatiaau Carchar y Berwyn. Y prif nod yw cael cydddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ei angen yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymyrraeth gynnar ac atal. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i wneud y gwaith hwn, sy'n cynnwys darparwyr 3^{ydd} sector, CRC, Heddlu Gogledd Cymru, Carchar y Berwyn a phartion eraill cyfrannog. Bydd y grŵp yn ystyried gwaith ymchwil cyfredol sy'n gysylltiedig â'r grŵp defnyddwyr gwasanaethau hwn, gan edrych hefyd ar y ddarpariaeth bresennol ac ar unrhyw fylchau, gyda'r nod o gael effaith hirdymor, gynaliadwy.

Mae'r ymyrraeth gymunedol ar gyfer cyflawnwyr VAWDASV ar draws Gogledd Cymru yn brin iawn. Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn rhan-ariannu'r rhaglen Choose2change a achredir gan Respect (dan ofal Relate), sy'n cael ei rhedeg yn Wrecsam, Sir y Fflint a Chonwy. Maent hefyd yn cefnogi'r rhaglen Tadau Gofalgar sy'n ymdrechu i ailgysylltu tadau ymosodol â'u plant a chaiff hon ei rhedeg ar Ynys Môn, yng Ngwynedd a Sir Ddinbych. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen uwchraddio'r rhaglenni cymunedol hyn, er mwyn gallu cyrraedd ein targedau ymyrraeth gynnar.

Bu'r Cynghorydd Rhanbarthol yn gweithio ag amrywiol ddarparwyr i edrych ar raglenni ataliol wedi'u targedu â phobl ifanc ac mae'n gobeithio treialu hyn yn ystod 2019/20 (yn ddibynnol ar gyllid) gyda grŵp o'r maes Cyfiawnder Ieuencid yn y rhanbarth.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu'r rhaglen ADAPT (Tasgau Asiantaethau Cyflawnwyr Camdrin Domestig) (sy'n seiliedig ar y broses MATAC a ddefnyddir yn Northumbria, Humberside a rhanbarthau eraill yng ngogledd ddwyrain Lloegr). Bydd hyn yn helpu i adnabod y troseddwyd mynych, sy'n peri'r risg fwyaf ac yn annog camau gwrthdymadrol lle bo'n briodol. Bydd hefyd yn helpu i amlygu dioddefwyr a phlant y mae VAWDASV yn effeithio arnynt, a drwy weithio â'r partneriaid, yn sicrhau bod gwasanaethau priodol ar waith.

4.5 Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

Mae Bwrdd Strategol Gogledd Cymru (a'r Is-grŵp Hyfforddi Rhanbarthol) wedi bod yn gweithio i weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar draws yr holl awdurdodau perthnasol.

Mae'r Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth (Grŵp 6) ar gael i holl arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus a rhoddwyd y cyfle i'r gwasanaethau arbenigol gwblhau hyfforddiant priodol yng ngrwpiau 4 a 5.

Yn ystod yr amser hwn, bu staff yr "awdurdodau perthnasol" yn gwneud cwrs e-ddysgu ymwybyddiaeth o VAWDASV Grŵp 1 (a hyfforddiant wyneb yn wyneb, lle bo'n briodol). Mabwysiadwyd hwn ar draws Gogledd Cymru ac mae'r cyfraddau cwblhau yn codi'n barhaus, gyda 90% o staff Sir Ddinbych wedi'u hyfforddi, a nifer o'r awdurdodau lleol eraill yn agos iawn atynt. Cafwyd rhai anawsterau yn gweithio â staff na chânt fynediad rheolaidd i offer TG ac â gweithwyr sesiynol a rhai ar gontractau tymor byr, ond mae'r Awdurdodau Lleol wedi dod o hyd i atebion lleol sy'n addas i'w gweithlu nhw. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb, defnyddio'r llawlyfr, a dysgu dan arweiniad hyfforddwr.

Mae Grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith (Gofyn a Gweithredu) wedi cael eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru er mis Ebrill 2019. Mae'r Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol wedi llunio Cynllun Rhanbarthol i'w gyflwyno, ond ni fu'r prosiect hwn yn un hawdd, oherwydd yr angen i'r awdurdodau perthnasol ymrwmo cryn dipyn o adnoddau. Mae'r Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol yn cyfarfod bob chwarter ac yn bwydo unrhyw bryderon yn uniongyrchol i'r Bwrdd Strategol ac mae'r Bwrdd wedi bwydo unrhyw bryderon yn ôl i'r Uwch Reolwyr drwy gyfrwng y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Rhanbarthol. Mae'r ffigurau gofynnol ar gyfer hyfforddiant a roddir yn y Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol yn golygu y bydd angen inni gyflwyno chwe chriw i gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr Grŵp 2 yn ystod 2019/20 a thri Grŵp 3.

Bydd criw dysgwyr Hyfforddi'r Hyfforddwr Grŵp 2 yn cael eu hyfforddi ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr 3^{ydd} Sector, Datblygu'r Gweithlu a Budd-daliadau a Refeniw yn Sir y Fflint, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Hyfforddiant Corfforaethol yn Ynys Môn, ac Addysg yng Ngwynedd. Mae gennym griw arall o ddysgwyr a fydd yn dechrau eu cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr Grŵp 2 ym mis Medi, o Addysg yn Sir y Fflint a'r 3^{ydd} Sector. Rydym yn gobeithio y bydd llwyddiant y grwpiau hyn yn annog meysydd gwasanaethau eraill o'r rhanbarth i ddilyn yr hyfforddiant yn ystod hydref 2019 a gwanwyn 2020.

AMCAN	CAMAU GWEITHREDU	MESUR O'R EFFAITH	DIWEDDARIAD 2019/20
Amcan 1: Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.			
Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael sy'n rhoi gwybodaeth am VAWDASV y gellir ei hyrwyddo mewn mannau cyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar bob maes o VAWDASV ac sydd ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd a ddefnyddir yn lleol. (Byw Heb Ofn)	Cysylltu â'r agenda caethwasiaeth fodern a masnachu pobl i sicrhau bod adnoddau cenedlaethol ar gael mewn ieithoedd lleol a'u bod yn cynnwys holl elfennau'r agenda VAWDASV.	Adnoddau Byw Heb Ofn ar gael ar draws Gogledd Cymru – mesur faint o'r adnoddau a ddefnyddir	Adnoddau Byw Heb Ofn wedi eu hyrwyddo'n eang gan y Tîm Rhanbarthol ac mae gan y Tîm Rhanbarthol hefyd gyflenwad o adnoddau marchnata Llywodraeth Cymru, at ddefnydd yr holl wasanaethau arbenigol lleol a'r awdurdodau perthnasol
	Gweithio â chyflogwyr y sector preifat i gydnabod eu cyfrifoldebau corfforaethol, yn enwedig mewn rhai sectorau (gwestai a bwytai, gyrwyr taccis); gan edrych ar ofynion trwyddedu er mwyn iddynt gydnabod ac adrodd am faterion fel CS, puteindra dan orfod a masnachu pobl, yn ogystal â VAWDASV.	Nifer y cyflogwyr sy'n dilyn hyfforddiant (cysylltiadau â gwaith Caethwasiaeth Fodern).	I gael trwyddedau taccis yn y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn awr, rhaid i yrwyr ddilyn Hyfforddiant Diogelu. Bwriedir cyflwyno hyn ym mhob ardal erbyn diwedd 2019/20.
	Gweithio â'r comisiynwyr presennol a darparwyr rhaglenni magu plant a chymorth i deuluoedd i sicrhau bod perthnasoedd diogel, iach yn cael eu hyrwyddo a bod unrhyw agweddau amhriodol at anghydraddoldeb rhywiol yn	Cynllun Comisiynu Rhanbarthol	Caiff Tadau Gofalgar ei gomisiynu ar Ynys Môn, yng Ngwynedd a Sir Ddinbych. Mae rhaglenni eraill yn cael eu hystyried, yn ddibynnol ar gyllid.

	cael eu herio a'u cywiro'n briodol.		
Gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd, yn cael eu harfogi i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr.	Grŵp 2 a 3 – Gofyn a Gweithredu Cyflwyno ar draws Gogledd Cymru o Ebrill 2018	Diweddarau a monitro data'r Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol yn rheolaidd	Mae tri chriw o ddysgwyr Hyfforddi'r Hyfforddwr Grŵp 3 Gofyn a Gweithredu wedi'u cofrestru ar gyfer haf/ hydref 2019 ac rydym yn gobeithio cofrestru dau griw Grŵp 3 erbyn diwedd y flwyddyn.
	Ymholiad fel mater o drefn gyda BIPBC. Sicrhau cysondeb a'i gyflwyno ar draws pob gwasanaeth iechyd.	Cofnodi pob datgeliad sy'n risg isel a chanolig, yn ogystal â risg uchel	Mae hwn yn fater parhaus y mae BIPBC yn delio ag ef.
	Staff wedi'u hyfforddi'n addas o fewn pob darparwr arbenigol - cyflwyno Grwpiau 4 a 5	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol	Mae Grwpiau 4 a 5 yn cael eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru gan y sector arbenigol.
	Gweithredu'r maes llafur arbenigol yn llawn	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol	Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithio â'r Is-grŵp FGM, HBV, Priodasau dan Orfod ar faes llafur hyfforddiant sy'n berthnasol i holl feysydd Trais yn Erbyn Merched. Mae'n cyplysu â Grŵp Datblygu Gweithlu'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant.

<p>Gweithio gyda gwasanaethau VAW Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, a'u cefnogi, i gynnal datblygiad cymunedol i herio agweddau diwylliannol a newid arfer sy'n gallu bod yn sail i anffurfio organau cenhedlu merched a phriodas dan orfod (<i>Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref</i>)</p>	<p>Gweithio gyda sefydliadau arbenigol i ddatblygu adnoddau a hyfforddiant i herio agweddau diwylliannol ac arferion o fewn cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig penodol. Gweithio gydag arweinwyr cymunedol a chynrychiolwyr i ymgysylltu â merched a genethod diamddiffyn yn eu cymunedau, mewn amgylchedd diogel a saf.</p>	<p>Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol</p>	<p>Mae'r Is-grŵp FGM, HBV, FM yn gweithio â BAWSO i sicrhau bod y prosiect cyfredol "Creu Cymunedau Prydeinig Cryfach", sy'n gweithio â menywod a merched agored i niwed yn eu cymuned, yn cael cefnogaeth gan bartneriaid ac mae llwybrau priodol ar waith i sicrhau bod trais yn cael ei adnabod yn gynnar a bod cefnogaeth ar gael.</p>
	<p>Sicrhau bod yr holl sefydliadau arbenigol yn gynhwysol ac wedi cael hyfforddiant addas wrth weithio gyda dioddefwyr anffurfio organau cenhedlu merched, priodasau dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd.</p>	<p>Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol</p>	<p>Fel uchod – mae'r Maes Llafur Arbenigol yn cael ei adfywio a'i gyplysu â'r Grŵp Rhanbarthol Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu.</p>
<p>Annog pob cyflogwr i ddatblygu polisiau'r gweithlu i godi ymwybyddiaeth o effeithiau VAWDASV mewn cyflogaeth, yn ogystal â newid agweddau tuag atynt, a rhoi sylw iddynt (<i>Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru</i>)</p>	<p>Gweithio gyda chyflogwyr mawr lleol yn y sector cyhoeddus a phreifat, i annog diwylliant o gefnogaeth yn dilyn datgeliad gan ddioddefwyr a chyflawnwyr.</p>	<p>Nifer y cyflogwyr sy'n ymgysylltu â hyfforddiant</p>	<p>Bydd yr hyfforddiant hwn yn ffurfio rhan o'r maes llafur arbenigol a bydd ar gael i bob sector.</p>
<p>Gwella mynediad at wybodaeth o ansawdd uchel a chyfredol am VAWDASV a'r cyngor</p>	<p>Adolygu'r cyngor a'r trefniadau cysylltu ar wefannau partneriaid</p>	<p>Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fonitro</p>	<p>Mae Cadeirydd Bwrdd Strategol VAWDASV GC a'r</p>

sydd ar gael mewn mannau cyhoeddus ac ar-lein (yn hygyrch yn y prif ieithoedd cymunedol ac mewn fformatau amgen)	Sicrhau bod yr holl ddata a'r wybodaeth yn gyfredol a bod partneriaid statudol yn cynnal ac yn diweddarau'r rhyngwyneb		Cynghorydd Rhanbarthol yn cwrdd â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i sicrhau y cynhelir y sianelau cyfathrebu a bod yr holl wybodaeth yn gyfredol ac yn briodol.
Sicrhau bod comisiynwyr rhanbarthol (gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau digartrefedd, gwasanaethau iechyd a phlant) yn integreiddio VAWDASV i gontractau prif ffrwd i ymgorffori cefnogaeth i ddiodefwyr a'u teuluoedd mewn gwasanaethau generig.	Datblygu Is-grŵp Comisiynu, sy'n cynnwys cyllidwyr sy'n dod o amrediad o wasanaethau (yn cynnwys Cefnogi Pobl, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Bwrdd Cynllunio Ardal ac ati), i gydweithredu i roi sylw i anghenion diodefwyr a goroeswyr VAWDASV.	Cynllun Comisiynu Rhanbarthol	Mae'r holl bartneriaid yn rhan o'r Is-grŵp Cydgomisiynu, gan gynnwys yr APB, Cefnogi Pobl, OPCC a'r 3 ^{ydd} Sector, yn ogystal â'r awdurdodau perthnasol.
Datblygu a darparu rhaglenni sydd (1) yn gwella gwytnwch, hyder a grymuso merched a genethod a (2) yn ymgysylltu'n gadarnhaol a datblygu clymblaid gyda dynion, sy'n dewis dull di-drais wrth herio VAWDASV.	Gweithio gyda gwasanaethau arbenigol a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu pecynnau cefnogi sy'n seiliedig ar adferiad, i gynyddu gwytnwch a grymuso merched a genethod.	Pob darparwr yn cynnig rhaglenni addas, wedi'u hachredu	Mae hwn yn waith parhaus ac mae'r Cynghorydd Rhanbarthol yn cyfarfod â'r 3 ^{ydd} sector yn rheolaidd i edrych ar gysondeb y ddarpariaeth.
Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.			
Gweithredu fframwaith atal sy'n herio'r strwythurau sylfaenol sy'n gwneud i anghydraddoldeb ar	Defnyddio fframwaith addysg Cymru Gyfan	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cydnabod perthnasau peryglus, gan	Mae gan bob ysgol yng Ngogledd Cymru fynediad i'r rhaglen Sbectrwm a chaiff ei marchnata'n eang ar draws y rhanbarth. Mae'r Cynghorydd

sail rhywedd a VAWDASV barhau.		wybod lle i gael cefnogaeth	Rhanbarthol hefyd yn cyfarfod â Ffederasiynau Penaethiaid ym mhob ardal i drafod materion hyfforddiant a mynediad i adnoddau priodol.
	Ymyriadau teulu cyfan – cefnogaeth rhwng y cenedlaethau i alluogi teuluoedd i ddatblygu perthnasau iach a diogel	Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fonitro	Mae hwn yn faes gwaith parhaus i'r partneriaid a'r tîm Rhanbarthol.
Datblygu llwybrau cadarn i blant a phobl ifanc roi gwybodaeth am drais a cheisio cefnogaeth a chyngor.	Cysylltiadau â diogelu – pob partner i sicrhau eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth a chyngor i blant a phobl ifanc, yn dilyn datgeliad, a chadw at lwybrau gofal sydd yn eu lle ar hyn o bryd.	Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fonitro	Caiff y llwybrau eu monitro gan bartneriaid unigol a chaiff unrhyw bryderon eu dwyn at sylw'r Bwrdd.
	Darparu gweithwyr cefnogi plant mewn asiantaethau arbenigol (yn unol â'r lefel o angen a nodwyd), yn ogystal â gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau ieuencid, annog y defnydd o "gefnogwyr" i weithio fel mentoriaid cymheiriaid a chefnogaeth.	Gweithiwr plant a phobl ifanc penodol ym mhob gwasanaeth arbenigol, lle bo'n addas.	Ceir o hyd ddiffyg adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gwasanaethau arbenigol oherwydd cyllid. Mae'r Is-grŵp Cydgomisiynu yn troi at Teuluoedd yn Gyntaf/Dechrau'n Deg a chyllidwyr eraill i gomisiynu gwasanaethau yn unol â'r Strategaeth Ranbarthol.
Gweithio gydag ysgolion a cholegau i gefnogi staff i weithredu ethos sy'n ystyriol o drawma, gan	Defnyddio dulliau iaith a chyfathrebu y gall pobl ifanc uniaethu â nhw o fewn gwaith codi ymwybyddiaeth ac atal.	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n adnabod perthnasau peryglus, gan	Fel uchod – mynediad i'r rhaglen Sbectrwm.

alluogi pobl ifanc i deimlo'n ddiogel i ddatgelu camdriniaeth.		wybod lle i gael cefnogaeth	
	Ysgolion yn y rhanbarth i ddarparu'r gofyniad cenedlaethol o ran 'dull ysgol gyfan' o ran atal VAWDASV.	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n adnabod perthnasau peryglus, gan wybod lle i gael cefnogaeth	Fel uchod – mynediad i'r rhaglen Sbectrwm.
	Gwasanaethau Addysg i sefydlu systemau i nodi ac ymateb yn effeithiol i ddysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan VAWDASV a sicrhau bod ganddynt lwybrau i gefnogaeth.	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n adnabod perthnasau peryglus, gan wybod lle i gael cefnogaeth	Mae'r Cyngorydd Rhanbarthol yn cyfarfod â Ffederasiynau Penaethiaid ym mhob ardal, i sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth i ddefnyddio hyfforddiant a chefnogaeth briodol.
Datblygu a darparu rhaglenni i addysgu, llywio a herio pobl ifanc am berthnasau iach, camdriniaeth a chydysyniad <i>(Ffynhonnell - Swyddfa Gartref)</i>	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar ddarpariaeth mewn ysgol i herio agweddau a hyrwyddo perthnasau iach.	Nifer yr ysgolion sy'n mabwysiadu ethos Perthnasau Iach a darparu maes llafur newydd.	Fel uchod – mynediad i'r rhaglen Sbectrwm.
Gweithio gyda cholegau addysg bellach/uwch, i ddatblygu dull i weithio gyda phobl ifanc fel gwylwyr i hyrwyddo'r elfen o atal VAWDASV a newid cymdeithasol pellach <i>(Ffynhonnell – Swyddfa Gartref)</i>	Gweithio gyda darparwyr Addysg Uwch i ganolbwyntio ar ddiogelwch yn ystod Wythnos y Glas - gan ganolbwyntio yn arbennig ar gydsyniad a bod yn ddiamddiffyn pan fydd unigolion o dan ddylanwad sylweddau.	Cynnwys gwybodaeth a chynghor VAWDASV ym maes llafur Wythnos y Glas	Mae hwn yn faes gwaith parhaus i'r tîm Rhanbarthol.
AMCAN 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr			

Sicrhau bod cyflawnwyr VAWDASV bob tro'n cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd	Darparu hyfforddiant i'r holl staff rheng flaen i gael ymateb cyson i ddatgeliadau cyflawnwyr a dioddefwyr. Dylai hyfforddiant alluogi staff i wneud asesiad o risg.	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol	Caiff y maes hwn sylw yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a bydd hyfforddiant "Gweithio â Chyflawnwyr" mwy penodol ar gael dan y maes llafur arbenigol.
	Cefnogaeth IDVA/ISVA gyson waeth lle mae'r ardal, drwy'r broses cyfiawnder troseddol ac wedi hynny.	Darpariaeth IDVA /ISCA Ranbarthol	Mae proses gaffael am ddarpariaeth IDVA ranbarthol yn mynd rhagddi a chaiff gwasanaeth newydd, cyson ei gomisiynu i ddechrau ym mis Ebrill 2020.
Gweithio gyda chyflawnwyr a rhoi cyfleoedd iddynt newid ar yr un pryd â diogelu eu dioddefwyr/ teuluoedd rhag rhagor o gamdriniaeth.	Rhaglenni cyflawnwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymyriadau teulu cyfan, gyda ffocws ar annog a chreu newid	Rhaglenni cyflawnwyr yn seiliedig ar dystiolaeth, sydd ar gael ar draws y rhanbarth	Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar ymyraethau ar gyfer cyflawnwyr yng Ngogledd Cymru ac i gynnal asesiad o angen ar gyfer yr ardal hon. Bydd yr asesiad hwnnw yn bwydo gwybodaeth i'r Cynllun Comisiynu ar gyfer Gogledd Cymru i'r dyfodol yn 2020/21.
	Gweithio gyda Charchar EM y Berwyn i sicrhau bod cefnogaeth o'r ddalfa i'r gymuned yn ddi-dor i'r cyflawnwr a'u teulu (os yw'n addas a bod asesiadau risg cywir yn eu lle). Llwybr cadarn o asesiad i raglen yn y	Deilliannau aildroseddu	Cynhwysir y mater hwn yn yr Asesiad o Anghenion Cyflawnwyr sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

	carchar, ac yna'n parhau yn y gymuned wedi iddynt gael eu rhyddhau.		
	Sicrhau bod cefnogaeth arbenigol yn cael ei chynnig yn dilyn datgeliadau o Drais sy'n seiliedig ar Anrhydedd neu Briodas dan Orfod, sydd ond yn cynnwys teuluoedd os yw'r risg wedi'i asesu'n isel.	Nifer y dioddefwyr sy'n cael cefnogaeth â'r teuluoedd yr ymgysylltwyd â nhw.	Mae'r Is-grŵp FGM, HBV, FM yn casglu data am achosion cyfredol, i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei chynnig gan bob partner.
Amcan 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.			
Cefnogi gwelliannau yn ymatebion gweithwyr proffesiynol i VAWDASV (<i>Ffynhonnell – Swyddfa Gartref</i>)	Ystyried gweithredu prosiect sy'n debyg i'r rhaglen IRIS, drwy ddefnyddio'r model a chymhwyso hwn i VAWDASV (cyflwyno darpariaeth IDVA o fewn meddygfeydd meddygon teulu, yn ogystal â darpariaeth iechyd sylfaenol)	Gweithredu'r model IRIS wedi'i addasu	Mae'r Bwrdd Strategol yn ystyried rhaglen o'r un arddull ag IRIS, a rhoddwyd i gynrychiolydd BIPBC y dasg o gyflwyno briff i'r Bwrdd yn hydref 2019.
	Nifer y gwasanaethau iechyd meddwl sy'n gweithredu Grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ('Gofyn a Gweithredu').	Ymgorffori 'Gofyn a Gweithredu' mewn gwasanaethau iechyd meddwl	Mae BIPBC yn darparu hyfforddiant ar ddull Gofyn a Gweithredu ar draws yr holl wasanaethau iechyd.
Gwneud y gorau o fannau datgelu diogel a chyfleoedd am gymorth cynnar mewn cymunedau lleol i oroeswyr (oedolion a phlant) a chyflawnwyr (<i>Ffynhonnell Llywodraeth Cymru, Swyddfa Gartref</i>)	Ymgorffori Gofyn a Gweithredu ar draws Gogledd Cymru, i sicrhau bod pob staff rheng flaen yn deall yr angen i ddarparu amgylchedd diogel a saff i alluogi datgeliad.	Nifer y datgeliadau a wneir drwy 'Gofyn a Gweithredu'	Fel uchod – dechreuwyd cyflwyno Gofyn a Gweithredu a bydd y ddau griw cyntaf yn gwneud cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr ym mis Gorffennaf 2019.

Parhau i ddarparu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ferched sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol (<i>Ffynhonnell Llywodraeth Cymru</i>)	Gweithio gyda Chanolfan Merched Gogledd Cymru i adeiladu ar eu gwaith cyfredol gyda merched sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, a chyflwyno'r gefnogaeth hon ar draws y rhanbarth.	Nifer y merched sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder troseddol, sy'n ymgysylltu â gwasanaethau	Mae hwn yn faes gwaith parhaus i'r Bwrdd Strategol.
Gweithio â'r system cyfiawnder troseddol i leihau dedfrydau tymor byr yn y carchar i fenywod a'u cysylltu â gweithgareddau gwrthdiniadol.	Cefnogi'r gwaith gwrthdiniadol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'i bartneriaid, a datblygu'r gefnogaeth hon ymhellach.	Nifer y merched sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder troseddol, sy'n ymgysylltu â gwasanaethau gwrthdiniadol.	Mae'r prosiect Checkpoint ar fin dechrau yng Ngogledd Cymru, gan gynnig gwasanaethau gwrthdiniadol ar gyfer amrywiol droseddau.
Sicrhau bod dulliau ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael eu defnyddio ar draws y rhanbarth	Edrych ar ddarparwyr arbenigol yn cael eu cyd-leoli gyda Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau addas eraill.	Darparwyr arbenigol yn gweithio o swyddfeydd wedi'u cyd-leoli	Ceir ar hyn o bryd ddwy ganolfan Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yng Ngogledd Cymru (Sir y Fflint ac Ynys Môn) ac mae'r Bwrdd yn gweithio â'r timau EAT i edrych ar gynnwys y 3 ^{ydd} Sector. Maent wedi cael cynnig hyfforddiant ACE drwy'r canolfannau hyn a byddant yn gobeithio gweithio'n agosach i'r dyfodol.
	Adeiladu capasiti a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwaith ymyriadau gyda phlant a phobl ifanc	Arian cynaliadwy wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc	Mae hwn yn waith sy'n parhau yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Sicrhau bod teuluoedd a nodwyd fel bod angen cefnogaeth i fyw gyda VAWDASV yn cael mynediad cynnar at gefnogaeth arbenigol, i liniaru'r trawma sy'n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol mewn plentynod ac fel oedolion <i>(Ffynhonnell Llywodraeth Cymru)</i>	Gweithio gyda darparwyr arbenigol i lywio'r datblygiad o ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod (ACE), a sut y gellir ei ddefnyddio i ymateb i ddiodefswyr a goroeswyr VAWDASV	Nifer y gwasanaethau arbenigol sy'n cynnig cefnogaeth sy'n ystyriol o drawma, o safbwynt ACE.	Cynigiwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE i wasanaethau arbenigol yn Sir y Fflint ac Ynys Môn, fel y safleoedd mabwysiadu cynnar yng Ngogledd Cymru.
Cyflwyno dull ACE gyda rhaglenni ymyriadau cynnar presennol	Cyflwyno hyfforddiant ACE	Nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi yn ACE	Fel uchod – mae'r safleoedd mabwysiadu cynnar wedi cynnig hyfforddiant ACE i ddarparwyr arbenigol 3 ^{dd} sector.
AMCAN 5: Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddiodefswyr a goroeswyr			
Gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol	Is-grŵp Hyfforddi i ddatblygu prosiect Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol llawn a chynllun gweithredu am y pum mlynedd nesaf, yn dangos sut y bydd yn cael ei gyflwyno, pryd y bydd pob Awdurdod Lleol yn dechrau cyflwyno a sut y caiff hyn ei fonitro.	Cynllun hyfforddi yn cael ei fonitro	Lluniwyd, diweddarwyd a chyflwynwyd y Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru. Caiff hwn ei fonitro'n rheolaidd gan yr Is-grŵp Hyfforddi a Datblygu.
Sicrhau bod darparwyr gwasanaeth arbenigol yn gallu cefnogi diodefswyr a goroeswyr sy'n profi sawl anfantais	Darparu hyfforddiant yn seiliedig ar adferiad, ac ystyriol o drawma, ar gyfer pob darparwr gwasanaeth arbenigol ac asiantaethau partner.	Nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi yn ACE	Fel uchod – mae'r safleoedd mabwysiadu cynnar wedi cynnig hyfforddiant ACE i ddarparwyr arbenigol 3 ^{dd} sector.
Darparu hyfforddiant VAWDASV i	Darparu hyfforddiant i staff y llys i bwysleisio pwysigrwydd	Nifer staff y llys sy'n gwneud yr	Mae'r Cynghorydd Rhanbarthol nawr

<p>asiantaethau partner cyfiawnder teuluol a throeddol, gan alinio hyn gyda gofynion y Coleg Plismona, a darparu darparwyr achrededig yn y sector arbenigol, lle maent ar gael. (<i>Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru</i>)</p>	<p>diogelwch dioddefwyr yn ystod achosion cyfiawnder troeddol, yn ogystal â'r ddealltwriaeth y gall penderfyniadau a wneir mewn achosion troeddol effeithio ar orchmynion sifil.</p>	<p>hyfforddiant sydd ar gael</p>	<p>yn eistedd ar Grŵp Llywio Cam-drin Domestig (Cyfiawnder Troeddol) Gogledd Cymru. Ymysg aelodau'r grŵp mae Heddlu GC, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, GTLIEM, DCP a'r gwasanaeth IDVA. Trafodwyd rhannu hyfforddiant a bydd y Cynghorydd Rhanbarthol yn gweithredu hyn.</p>
<p>Sicrhau bod y Bwrdd Diogelu rhanbarthol yn adolygu gofynion systemau, data a monitro ar gyfer dulliau diogelu, gan eu bod yn ymwneud â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (<i>Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru</i>)</p>	<p>Gweithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol i'w hannog i fonitro effeithiau VAWDASV ar oedolion a phlant ar draws Gogledd Cymru.</p>	<p>Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fonitro</p>	<p>Mae hwn yn ddarn gwaith parhaus a gaiff ei siapio drwy fod yr holl dimau Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru yn gweithredu'r system WCCIS.</p>
<p>Gwella'r hyfforddiant a roddir i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â chyflawnwyr, i sicrhau bod datgeliadau'n cael eu rheoli'n addas.</p>	<p>Cynnig hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, sy'n rhoi'r ddealltwriaeth o'r angen i gynnwys gweithdrefnau disgyblu/ camymddwyn mewdol, yn ogystal â gweithdrefnau cyfiawnder troeddol.</p>	<p>Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol</p>	<p>Lluniwyd, diweddarwyd a chyflwynwyd y Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru. Caiff hwn ei fonitro'n rheolaidd gan yr Is-grŵp Hyfforddi a Datblygu.</p>
<p>Datblygu ymateb mwy integredig ar draws llysoedd troeddol a</p>	<p>Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troeddol, i sicrhau bod hyfforddiant digonol yn</p>	<p>Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol a niferoedd sy'n cael</p>	<p>Fel uchod - mae'r Cynghorydd Rhanbarthol nawr</p>

<p>sifil/teuluol, drwy roi mynediad i eiriolaeth annibynnol i ddiodefswyr, drwy ddefnyddio atebion sifil i gael mynediad at amddiffyniad, gan sicrhau nad yw'r rhain yn mynd yn groes i fesurau amddiffyn yn y system cyfiawnder troseddol. <i>(Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru)</i></p>	<p>cael ei roi i gefnogi diodefswyr VAWDASV drwy ddefnyddio atebion sifil.</p>	<p>eu hyfforddi i gefnogi diodefswyr drwy ddefnyddio atebion sifil</p>	<p>yn eistedd ar Grŵp Llywio Cam-drin Domestig (Cyfiawnder Troseddol) Gogledd Cymru. Ymysg aelodau'r grŵp mae Heddlu GC, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, GTLIEM, DCP a'r gwasanaeth IDVA. Trafodwyd rhannu hyfforddiant a bydd y Cyngorydd Rhanbarthol yn gweithredu hyn.</p>
<p>Mynd ati i sicrhau diogelwch merched a genethod yn y diwydiant rhyw, drwy gamau cydlynol i fynd i'r afael â thrais neu ecsbloetiaeth, a'u helpu i adael os oes angen</p>	<p>Rhoi cyngor a gwybodaeth i ferched sy'n dymuno gadael y diwydiant rhyw a sicrhau eu bod yn cael cynnig cefnogaeth berthnasol ac amserol os yw'n briodol. Gweithio gyda'r Grŵp Gweithwyr Rhyw, Lleihau Camfanteisio'n Rhywiol drwy Buteindra, i sicrhau y rhoddir y gefnogaeth addas.</p>	<p>Y nifer sy'n cael mynediad at gefnogaeth berthnasol</p>	<p>Mae hwn yn faes gwaith parhaus i'r Bwrdd Strategol.</p>
<p>Sicrhau bod yna arbenigwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael i weithio gyda phlant a phobl ifanc wedi'u heffeithio gan VAWDASV.</p>	<p>Gweithio gyda chomisiynwyr i ganolbwyntio ar yr angen am wasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc mewn lloches ac yn y gymuned.</p>	<p>Arian cynaliadwy ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc</p>	<p>Mae hwn yn waith sy'n parhau yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.</p>
<p>Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddiodefswyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Cymru.</p>			
<p>Creu ethos o gydweithredu a thryloywder ymhlith comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr</p>	<p>Datblygu a chynllunio gwasanaethau i'w gwneud ar y cyd.</p>	<p>Cynllun Comisiynu Rhanbarthol</p>	<p>Mae hwn wedi dechrau ac mae'r ddarpariaeth IDVA ranbarthol yn mynd drwy'r broses gaffael ar hyn o</p>

			bryd. Mae Cefnogi Pobl hefyd wedi dechrau adolygu'r ddarpariaeth lochesi mewn nifer o awdurdodau lleol, ac mae hyn yn debygol o effeithio ar lawer o'r gwasanaethau a gomisiynir ar draws Gogledd Cymru.
	Gweithio gyda chomisiynwyr i sicrhau bod yr holl waith o gofnodi ac adrodd yn cael ei wneud yn defnyddio dangosyddion rhanbarthol. Sicrhau bod casglu data a monitro'n gyson ar draws bob partner a bod data'n cael ei rannu'n briodol.	Defnyddio dangosyddion cofnodi a monitro sydd wedi cael cytundeb canolog	Cytunwyd ar y Dangosyddion Cenedlaethol nawr a chaiff y rhain eu cyfuno yn y fframwaith Canlyniadau Rhanbarthol a luniwyd gan yr Is-grŵp Cydgomisiynu.
Sicrhau y gall dioddefwyr VAWDASV gael mynediad cyson at le o ddiogelwch, eiriolaeth a chefnogaeth yn syth, waeth lle maent yn byw yng Ngogledd Cymru.	Llinell gymorth – sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i sicrhau bod poblogaeth Gogledd Cymru'n cael mynediad at linell gymorth 24 awr.	Tystiolaeth o weithio'n gydweithredol ar draws y rhanbarth	Mae'r Bwrdd strategol yn cefnogi'r Llinell Gymorth a defnyddir pob cyfle i'w marchnata.
	Tystiolaeth o weithio'n gydweithredol ar draws y rhanbarth.	Nifer y llochesi sy'n cynnig cefnogaeth benodol i blant a phobl ifanc	Mae'r ddarpariaeth lochesi yn cael ei hadolygu mewn nifer o awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, gyda'r nod o hybu'r arfer gorau.
	Darpariaeth arbenigol i dioddefwyr gyda diagnosis deuol - iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ati	Nifer y gwasanaethau arbenigol sy'n cynnig cefnogaeth benodol i dioddefwyr gyda sawl anfantais	Fel uchod - mae'r ddarpariaeth lochesi yn cael ei hadolygu mewn nifer o awdurdodau lleol yng Ngogledd

			Cymru, gyda'r nod o hybu'r arfer gorau.
	Cydnabod daearyddiaeth Gogledd Cymru a'r angen i ystyried yr elfen wledig wrth roi cefnogaeth.	Darpariaeth leol yn cydnabod yr elfen wledig ac anghenion ychwanegol dioddefwyr sy'n byw mewn cymunedau gwledig	Mae hwn yn faes gwaith parhaus i'r Is-grŵp Cydgomisiynu yn ogystal ag i'r Bwrdd. Mae'r Cynghorydd Rhanbarthol a'r Cadeirydd yn sicrhau bod y mater hwn yn cael ei godi'n genedlaethol â Llywodraeth Cymru.
	Sicrhau bod darpariaeth gwella diogelwch ar gael ac yn gyson ar draws pob ardal.	Pob ardal gyda darpariaeth gwella diogelwch gyson	Mae'r ddarpariaeth hon yn dal i fod yn anghyson oherwydd diffyg adnoddau, ond mae'n faes parhaus i'r Bwrdd ei ystyried.
Sicrhau bod safbwyntiau goroeswyr yn cael eu hymgorffori fel mater o drefn ac yn gyson mewn gwelliant gwasanaeth (<i>Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru</i>)	Defnyddio grwpiau ffocws i asesu effeithiau darpariaeth gwasanaeth yn rheolaidd, a meysydd i'w gwella.	Canolbwyntio ar ddeilliannau ac effaith ar gyfer goroeswyr – defnyddio "teithiau" i ddangos gwelliannau ac adferiad.	Mae Llais Goroeswyr yn rhan bwysig iawn o waith y Bwrdd ac mae'r Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu Rhanbarthol wrthi'n gweithio â grwpiau 3 ^{ydd} Sector arbenigol i edrych ar wella cyfranogaeth ar bob lefel.
Mapio adnoddau/cyllid ar draws y sector cyhoeddus sy'n cyfrannu at ymatebion VAWDASV i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael,	Yr Is-grŵp Comisiynu a'r Tîm Datblygu Rhanbarthol i edrych ar y modelau ariannu cyfredol a gweithio gyda phob comisiynydd i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.	Arian cynaliadwy ar gyfer meysydd o arfer gorau a defnydd addas o adnoddau	Mae'r Is-grŵp Cydgomisiynu yn gweithio â'r APB a Cefnogi Pobl, ond mae'n gobeithio gallu gweithio'n agosach â chyllidwyr eraill yn y maes Iechyd a Gofal

ac yn gallu dangos gwerth am arian wrth ymateb i oroeswyr a chyflawnwyr (<i>Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru</i>)			Cymdeithasol, i roi sylw i'r cyllid anghytwys a geir ar hyn o bryd ar gyfer trais rhywiol.
Cynllun comisiynu strategol ar y cyd i'w ddatblygu, a phob gwaith comisiynu VAWDASV i gadw at ganllaw arfer da Cymru	Datblygu Cynllun Comisiynu cadarn i edrych ar adnoddau ar draws Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu at agenda VAWDASV, a sicrhau bod yr holl gyllid yn cael ei gomisiynu'n unol ag angen (fel y gwelwyd yn yr Asesiad Anghenion).	Cynllun Comisiynu Rhanbarthol	Mae'r Is-grŵp Cydgomisiynu yn gweithio (gyda Cymorth i Ferched Cymru) ar hyn o bryd ar droi'r Asesiad o Anghenion yn ddogfen ddynamig sy'n parhau i gipio'r data diweddaraf a nodi patrymau a thueddiadau ar draws y rhanbarth.
Darparu darpariaeth Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn unol ag adolygiad o ddarpariaeth y Ganolfan yng Nghymru, sicrhau ansawdd gwasanaethau a'u meincnodi yn erbyn dangosyddion cenedlaethol	Gweithio gyda'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i sicrhau bod dangosyddion cenedlaethol yn cael eu defnyddio i fonitro darpariaeth ac ansawdd gwasanaethau.	Defnyddio dangosyddion cenedlaethol i fonitro perfformiad	Cwblhawyd y Dangosyddion Cenedlaethol bellach a bydd yn dod yn ddarn gwaith parhaus.
Sicrhau bod goroeswyr sydd 'heb gyllid cyhoeddus yn agored iddynt' yn gallu cael mynediad at gefnogaeth a diogelwch gan wasanaethau arbenigol, yn cynnwys cefnogaeth yn seiliedig	Gweithio gyda BAWSO (a gwasanaethau arbenigol eraill) a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i oroeswyr sydd heb gyllid cyhoeddus yn agored iddynt.	Niferoedd a gefnogir sydd heb gyllid cyhoeddus yn agored iddynt	Mae'r Is-grŵp FGM, HBV, FM yn ystyried y mater hwn ym mhob cyfarfod a chodir materion â'r holl bartneriaid ac os gwelir tueddiadau, fe'u cyflwynir i'r Bwrdd i'w hystyried.

<p>ar loches, drwy ddatblygu gweithdrefnau aml-asiantaeth ar gyfer ymateb, a chronni adnoddau sector cyhoeddus i sefydlu 'cronfa amddifadedd' ar gyfer y rhanbarth</p>			
<p>Sicrhau bod dioddefwyr VAWDASV yn cael cefnogaeth addas drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol, o ddatgelu i erlyn.</p>	<p>IDVA/ISVA – Datblygu darpariaeth gyson ar draws Gogledd Cymru, gan gynnig yr un gwasanaeth i ddioddefwyr VAWDASV, waeth lle maent wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru.</p>	<p>Gwasanaeth IDVA Rhanbarthol</p>	<p>Fel uchod - Mae proses gaffael y ddarpariaeth IDVA ranbarthol yn mynd rhagddi a chaiff y gwasanaeth newydd, cyson ei gomisiynu i ddechrau ym mis Ebrill 2020.</p>
	<p>MARAC – cefnogaeth addas i ddioddefwyr risg uchel</p> <p>Mwy o brosesau MARAC wedi'u safoni. Dylid monitro pob ardal yn rheolaidd o ran llywodraethu a gweithredu prosesau. Creu Grŵp Llywio MARAC Gogledd Cymru i oruchwylio'r broses</p>	<p>Grŵp Llywio MARAC Gogledd Cymru</p>	<p>Mae adolygiad llawn o MARAC wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd dan ofal Heddlu GC. Mae'r Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu Rhanbarthol yn gweithio â fforymau lleol i fwydo gwybodaeth i'r adolygiad hwn ac i sicrhau bod gan bob partner lais.</p>
<p>Sicrhau bod cefnogaeth tymor hir yn ei lle i oroeswyr adfer o'u profiadau, gan ddefnyddio ymyriadau sy'n ystyriol o drawma, ac yn seiliedig ar adferiad.</p>	<p>Cefnogaeth trais rhywiol a darpariaeth arbenigol</p>	<p>Digon o gyllid ar gyfer cefnogaeth trais rhywiol</p>	<p>Mae'r Is-grŵp Cydgomisiynu yn gweithio â chomisiynwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol eraill i roi sylw i'r annhegwch presennol yn y cyllid.</p>

	Cefnogaeth tai, sy'n hyrwyddo dioddefwyr sy'n cael cefnogaeth i aros yn eu tai, a bod y cyflawnwr yn cael ei symud oddi yno	Nifer y dioddefwyr sy'n cael eu cefnogi i aros yn eu cartrefi eu hunain	Mae Cefnogi Pobl yn eistedd ar yr Is-grŵp Cydgomisiynu ac yn arwain yn y maes hwn.
	Cefnogaeth arbenigol benodol i'r rhai sydd wedi profi Anffurfio Organau Cenhedlu Merched, HBV, FM a/neu heb gael cyllid cyhoeddus yn agored iddynt	Nifer y dioddefwyr a gefnogir	Fel uchod – mae'r Is-grŵp FGM, HBV, FM yn ystyried y mater hwn ym mhob cyfarfod a chodir materion â'r holl bartneriaid ac os gwelir tueddiadau, fe'u cyflwynir i'r Bwrdd i'w hystyried.

